

Antur Efa a'r Tylwyth Teg

Un noson, clywodd **Efa** sŵn rhyfedd yn dod o'i chwprdd dillad.

Yn araf bach,

bach,

bach mentrodd yn nes at y cwprdd.

Gyda phob cam tuag at y cwprdd dillad, cynyddodd y sŵn hudolus.

Ar ôl y chweched cam, stopiodd **Efa** yn stond.

Sylwodd **Efa** mai lleisiau'n canu caneuon **Dafydd Iwan** oedd y sŵn hudolus a oedd yn dod o'i chwprdd dillad!

Yn sydyn, teimlodd **Efa** yn ofnus.

Pam yn y **BYD** oedd caneuon **Dafydd Iwan** yn dod o'i chwprdd dillad?!

A phwy yn y **BYD** oedd yn ei chwprdd dillad?!

Ar ôl cymryd anadl ddofn, agorodd **Efa** ddrws ei chwprdd dillad yn gyffrous.

Mewn un **FFLACH LIWGAR** roedd **Efa** ym myd y **tylwyth teg**.

Daeth **brenhines** y **tylwyth teg** draw at **Efa** gan ei chroesawu i'r parti.

Roedd y **frenhines** yn gwisgo coron o ddiemwntau lliwiau'r **enfys** a ffrog lachar a sgleiniog yn batrymau di-ri.

Roedd y **frenhines** yn wych am wneud ffrogiau, felly ar unwaith trodd y **frenhines** ei llaw at wneud ffrog debyg i **Efa**.

Bron bod y ddwy ohonynt yn edrych fel efeilliaid!



O fewn eiliad roedd **Efa** yn gwisgo ffrog newydd a oedd yn gwneud i'w llygaid ddisgleirio fel **sêr** ac, yn wir, mi roedd **Efa** yn edrych yn eithriadol o bert.

“Mae ein gwestai arbennig wedi cyrraedd, felly mae'r parti yn cychwyn... nawr” cyhoeddodd y **frenhines** a dechreuodd y ffanffer.

Trodd y **frenhines** at **Efa** er mwyn egluro mai HI oedd y gwestai arbennig!

Roedd y parti yn llawn **tylwyth teg** o bob lliw a llun, gan gynnwys **Gwen gwallt glas**. Lliwiodd **Gwen** gwallt **Efa** yn **biws**, ei hoff liw yn y byd i gyd.

Yn y parti hefyd, roedd **Llio llygaid llwyd**, **Bethan breichiau byr** a **Tina traed tenau**.

Cafodd **Efa** lond bol o fwyd blasus a oedd yn cynnwys; **ci poeth** efo **sos coch**, **sglodion trwchus cynnes**, a **hufen iâ** lliw arian gyda **sprincls pinc**.

Ond yn fwy na hynny, roedd yna **afon siocled** hir a throellog yn llifo trwy deyrnas y **tylwyth teg**.

Roedd pawb yn mwynhau'r parti anhygoel ac am eiliad safodd **Efa** yn llonydd fel cerfddelw er mwyn amsugno'r awyrgylch.

I'r chwith, roedd yna **dylwyth teg** yn dal i ganu caneuon **Dafydd Iwan**.

I'r dde, roedd yna **dylwyth teg** yn dawnsio gwerin. Roedd **Efa** erioed wedi gweld dawnsio gwerin o'r blaen, felly roedd hi'n ei alw'n dawnsio gwirion!

O'i blaen, roedd yna **dylwyth teg** yn chwarae cuddio a rhai eraill yn eu gwisgoedd nofio yn barod i ddeifio i'r **afon siocled**.

Yn y byd rhyfeddol hwn, roedd y **siglen** a **llithren** wedi ei wneud o **flodau** a, choeliwch neu beidio, roedd y **si-so** wedi ei wneud o **betalau blodau!**

Aeth **Efa** i'r stondin golur lle roedd **Llio llygaid llwyd** yn ymbincio unrhyw un a fyddai'n eistedd yn eiddgar o'i blaen.

Ar ôl pum munud o ymbincio, cafodd **Efa** lwyaid anferthol o'r **afon siocled** a chafodd gyfle i chwarae yn y **parc blodau!**

Ymhen hir a hwyr, teimlodd **Efa** yn flinedig ac roedd hi'n cael trafferth cadw ei llygaid ar agor.

Ffarweliodd â phawb; y **frenhines**, **Gwen gwallt glas**, **Llio llygaid llwyd**, **Bethan breichiau byr** a **Tina traed tenau** ac mewn un **FFLACH LIWGAR** aeth **Efa** yn ôl adre.

Pan gerddodd **Efa** yn ôl trwy ddrws ei chwprdd dillad i'w hystafell wely, sylwodd ei bod hi wedi blino'n lân.

Aeth yn syth i'r ystafell ymolchi i dynnu ei cholur a phan edrychodd yn y drych chwaddodd ar ei hedrychiad. Roedd hi'n edrych fel **clown!**

O fewn chwinciad chwannen cwmpodd **Efa** i gysgu gyda gwên fawr ar ei hwyneb.

Cofiwch, does neb arall yn gwybod am y daith hudolus hon; felly peidiwch â'i rhannu!

Awdur: Lois Alaw Williams
Darlunydd: Sioned Medi Evans